## Cofiwch alw i'n gweld yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd

Cytûn
Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Churches Together in Wales

CAFC RWAS

Yn y Sioe Fawr byddwn ar res D yn ôl ein harfer. Rhif yr uned: 413.

Galwch i'n gweld am baned a chroeso.


### Eisteddfod Genedlaethol – Pontypridd

Eleni bydd gennym bresenoldeb mewn dau leoliad – stondin ar y maes ac Eglwys St Catherine's yn y dref.

Bydd gennym stondin fechan ar y maes (Uned 316-7) ond bydd ein gwasanaethau, arddangosfeydd, gwaith plant, sgyrsiau a lluniaeth yn cael eu cynnal yn Eglwys St Catherine's sydd ond 5 munud o'r maes.

Byddwn yn yr Eglwys bob dydd rhwng 11.30 - 5.30

Croeso cynnes i bawb




Ymweld â'r

## EISTEDDFOD?

Pontypridd, 3-10 Awst

I osgoi'r ffws, ewch ar drên, beic neu'r bws.

Bydd traffig a pharcio ym Mhontypridd yn anodd yn ystod y digwyddiad. Rydym yn argymell defnyddio opsiwn trafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy yn lle defnyddio'r car er mwyn osgoi'r straen o yrru.




Mae gorsaf drenau Pontypridd yn gwasanaethu'r ŵyl ac wedi'i lleoli 5 munud ar droed i/o'r Maes a 25 munud ar droed i/o Faes B.

Mae trenau'n rhedeg yn uniongyrchol o Gaerdydd Canolog i Ferthyr Tudful, Aberdâr a Threherbert, a phob un yn galw ym Mhontypridd, ac os ydych yn bwriadu teithio o Ben-y-bont ar Ogwr, Ynys y Barri, Penarth neu Rymni, bydd angen i chi newid yng ngorsafoedd Caerdydd Heol y Frenhines neu Gaerdydd Canolog.

Mae gorsaf fysiau Pontypridd 5 munud ar droed o'r ŵyl.

Gwasanaethir y dref yn dda iawn gan wasanaethau bws lleol a rhanbarthol. Gallwch gynllunio eich taith ar fws gan ddefnyddio cynllunydd teithiau Traveline Cymru.

Os ydych chi'n byw yn lleol, beth am gerdded neu feicio i Barc Coffa Ynysangharad gan ddefnyddio'r llwybrau cerdded a beicio pwrpasol yn y dref a'r ardal gyfagos?

## O e d f a o n

**Awst 4, 2024**
Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Gweinidog

**Awst 11, 2024**
Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Gweinidog

**Awst 18, 2024**
Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Gweiniodg

## Gofalaeth Glannau Ogwr

glannauogwr.cymru

**Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr**
4 Derwen Rd, Penybont, CF31 1LH

**Tabernacl, Porthcawl**
18 Fenton Place, Porthcawl, CF36 3DW

**Gweinidog**
Parchg Dylan Rhys Parry
4 Heol Cambell, Coity, CF35 6GP
Symudol: 07535904599
Ebost: dylan89rhys@gmail.com

Papur Wythnosol Gofalaeth Glannau Ogwr

# KOINONIA

Gofalaeth Glannau Ogwr
Rhifyn 98
Gorffennaf 28, 2024

## Y Sioe Fawr


Rhaid cyfaddef nad ydw i erioed wedi bod i'r Sioe Fawr yn Llanelwedd. Er mawr gywilydd. Un diwrnod dwi'n siwr y caf fynd. Ond mi fydda i wastad yn gwylio'r sioe ar y teledu ac yn gwranod ar y radio, ac yn synnu ac yn rhyfeddu at yr ystod eang o gystadleuathau a'r sgyrsiau fydd yn digwydd yn ystod yr wythnos. Mae'n siwr i mi fel rhywun sydd erioed wedi ffermio ond fod gen i sawl ffrind sydd yn gwneud hynny, mae'n gyfle i ni ddiolch, ond yn fwyn na hynny fel Cristnogion i weddïo dros ein ffermwyr. Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn heriol iawn i fyd amaethyddiaeth, pan gwelsom sawl protest yn y senedd i wrthwynebu newidiadau i gymorthdaliadau amaeth. Defnyddiwyd y slogan 'Dim Ffermwyr Dim Bwyd'. Yn ddiweddar gwelwyd cynnydd sylweddol mewn nifer o unigolion o fyd amaeth sydd yn dioddef o iechyd meddwl a chyda'r sefyllfa a'r pwysau ychwanegol ers Brexit mae poeni mawr am sut fydd ffermio yn erdyrch i'r dyfodol. Mae elusen Cristnogol o'r enw



Tir Dewi yn cynnig llinell gymorth i ffermwyr a'u teuluoedd, wedi ei sefydlu yn 2015 yng ngorllewin Cymru maent bellach bron a chyrraedd pob cornel o Gymru. Fel Undeb yr Annibywnyr rydym eisoes yn cefnogi Tir Dewi ac yn ei weld yn ddyletswydd arnom i ddiogelu a bugeilio ein Cefn Gwlad.

Heddiw ein braint ni yw gweddïo dros ein ffermwyr a'u teuloedd, gweddïwn yn ogystal dros Tir Dewi fel elusen wrth iddi barhau i gynnig gwasanaeth i fyd amaeth.

Os wyddoch am ryw rai sydd am ddefnyddio Tir Dewi dyma'r rhif:
0800 121 47 22








## Bore Goffi Dysgwyr

Dydd Sadwrn, Awst 3
10-12yp
Tabernacl, Porthcawl

Croeso cynnes i bawb




## Taith Gerdded a phicnic

| | |
|---|---|
| Dydd Iau Awst 1 | Dydd Iau Awst 15 |
| 11yb- 1.30yp | 11yb-1.30yp |
| Parc Bryngarw | Parc Slip |

## Glanhau Traeth Coney

**Dydd Mawrth, Awst 13 am 11yb**

**Cychwyn yn Sussed wrth y Bandstand ym Mhorthcawl**

**Paned a chacen i ddilyn**

